Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
EBRILL 2006

DYDDIAD	Nos Fercher, 15fed Mawrth, 2006
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU YN BRESENNOL	Nerys Evans (Cad), Elwyn Jones, Jason Hunt, Gwilym V.Thomas, Gwilym L.Williams, Meurig Williams, Emrys Jones, Tom Ellis, Huw Williams, Elin Evans.
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. Ymddiheuriadau

Cyng.Glyn Owen, Hugh Jones

2. Croeso

Estynwyd groeso cynnes i bawb.

3. Datgan Buddiant

EmJ – cynllunio 10 ii)
ElJ – cynllunio 10 iii), lolfa Wydr, Bodfan Rhosgadfan

4. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf (15.03.06).
cTE eGLW

5. Materion yn Codi

i Cynllun Uwchgwyrfai – derbyniwyd dau lythyr, un gan Cymad a'r llall gan Gyngor Gwynedd – y ddau yn gwrth-ddweud eu gilydd. Angen ysgrifennu at Alun Ffred Jones eto gan amgau copi o'r llythyrau a gofyn sut mae wedi cymryd cyhyd i ofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer y ffensio o ystyried fod y cynllun ar y gweill ers blynyddoedd.
cEmJ eGVT

ii Capel Bach – clerc wedi gofyn wrth Wyn Williams i osod y plac, ond roedd y cadeirydd wedi cael golwg ar y plac ac yn tybio nad ydio'r plac cywir. GLW yn mynd i geisio ymchwilio ymhellach.

iii Cafwyd ymateb gan y Cyngor Sir ynglŷn â safloedd ail-gylchu. Roedd y llythyr yn cyfeirio at y bocsys glas yn hytrach na safloedd ail gylchu oddi fewn i'r gymuned. Angen cael ymateb pellach.

iv Arwyddion Lôn Eifion – cafwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn nodi fod bwriad i ail-wampio mynedfeydd Lôn Eifion yn y dyfodol agos, ond y byddant yn ystyried rhoi arwydd dros dro ger y bont yn Dinas.

v Dŵr yn gorlifo yn Bodaden – angen atgoffa'r Cyngor Sir eto.

vi Cyflwr y ffordd rhwng Rhosgadfan a Rhostryfan – ysgrifennu at y cyngor eto yn gofyn pryd yn union y bydd arian yn cael ei glustnodi ar gyfer y gwaith yma gan fod pryderon mawr ynghylch cyflwr y ffordd. Ceisio cael dyddiad pendant ganddynt.

vii Llwybr troed rhwng Aberalaw a Trem Don heb ei glirio – angen atgoffa'r Adran Briffyrdd eto.

viii Cafwyd llythyr gan D.W.Williams, Adran Briffyrdd, yn nodi fod nifer fawr o gwynion wedi dod i law ynglŷn â'r 'speed bumps' ac nad oes bwriad wneud mwy o waith arnynt.

ix Arwyddion fflachio 30 – angen gofyn am rai parhaol yn hytrach na rhai sy'n gweithredu yn ystod tymor yr ysgol yn unig.

x Post Office Card Accounts (POCA) – llythyr gan Alun Ffred Jones yn nodi fod Hywel Williams wedi codi'r mater efo'r llywodraeth yn Llundain a chesio'u cael i ail-ystyried. Derbinwyd llythyr gan Hywel Williams a chopi o gofnod Hansard lle roedd y pwnc yma dan drafodaeth.

xi Llythyr gan Mair Tomos yn cwyno am gyflwr llwybrau Caeau Cochion. Clerc wedi ymateb gan nodi fod y swyddog llwybrau wedi gwneud archwiliad a bod gwaith i'w wneud yno'n fuan.

xii Cafwyd ymateb gan yr heddlu i'n cais i gael syrjeri reolaidd yn yr ardal. Angen ysgrifennu yn ôl yn nodi ein bod eisoes wedi awgrymu 2 safle, sef Clwb Rhosgadfan a neuadd Rhostryfan. Angen cael ymateb pellach i'n hawgrym o gael swyddog gweinyddol i ymgymryd â'r dasg os nad oes heddwas ar gael ar y diwrnod.
CEmJ e JH

xiii Safle steshion Rhostryfan – angen trefnu cyfarfod efo'r swyddogion grant a swyddog adfywio. Clerc i drefnu.

xiv Rhyddhad treth ar gyfer busnesau gwledig – angen ysgrifennu at Sue Essex yn datgan ein siom fod y rhyddhad hwn yn dod i ben, gan nodi ei fod yn mynd i effeithio'n ddrwg ar ardaloedd gwledig.

xv Angen atgoffa'r Cyngor Sir unwaith eto fod gwrychoedd angen eu torri yn Rhos Isaf.

xvi Arwyddion Cangen Bryngwyn – darparwyd gopi drafft o'r arwyddion er mwyn i pawb gael cyfle i'w darllen. Clerc yn mynd i drefnu cael cwblhau'r gwaith yn fuan. Angen rhoi gwybod i'r wasg ac ati unwaith bydd yr arwyddion i fyny.

xvii Dŵr yn gorlifo yn Tanybraich – angen rhoi gwybod i'r Cyngor Sir.

xviii Parcio ger Siop William, Rhosgadfan – angen gofyn wrth Gyngor Gwynedd a'r Heddlu ymateb.

xix Arwydd ger Glandwr, Rhos Isaf – angen gofyn wrth y cyngor osod yr arwydd yn ôl i fyny – lori bin yn ei daro bob wythnos. Hefyd angen eu hatgoffa am osod arwydd yn Groeslon Tryfan.

xx Angen atgoffa'r Cyngor Sir unwaith eto am y dŵr sy'n gorlifo ger Cae Garw, Rhos Isaf.

xxi TE – arwyddion Llanwnda – Hen Gastell i Lanwnda – polyn ynghanol y palmant. Angen rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd fod pobl dal i ddefnyddio'r darn yma o dir fel llwybr troed er bod yr arwydd yn nodi na ddylid gwneud hynny. Cyngor Cymuned wedi gofyn i gael gosod palmant yno beth amser yn ôl.

xxii Angen gofyn wrth Caernarfon Signs wneud arwydd yn nodi y dylid cadw cŵn ar dennyn ar hyd lein Bryngwyn.

6. i Derbyn Adroddiadau

Mynychodd GVT a HW gyfarfod cyntaf o grwp Cilgwyn, sydd yn trafod oblygiadau agor ail dwll yn Cilgwyn. Proses ymgynghori sydd yn digwydd ar hyn o bryd ond gobeithir y bydd modd agor ail dwll gan y bydd y twll presennol yn cau yn 2009.
Nodwyd hefyd fod cynllun ar y gweill i ddosbarthu biniau brown newydd i bawb. Bydd y biniau yma, fydd yn cynnwys gwastraff compostio yn unig, yn cael eu casglu yn wythnosol, gyda'r biniau gwyrdd yn cael eu casglu bob pythefnos.

7. Is-bwyllgorau

i)Cadarnhawyd fod cofnodion is-bwyllgor cyllid a gweinyddol gynhaliwyd ar 28.03.06 yn gywir. cEmJ eHW

<u>Is-bwyllgor y Fynwent</u> – cynhaliwyd y pwyllgor am 6.30 ar 26.04.06. Penderfynwyd codi ffioedd claddu ar oddeutu'r raddfa 5%. Dyma'r ffioedd newydd:

Ffioedd Mynwent Cefnfaes (Ebrill 2006)	O fewn y gymuned a chyn drigolion*	Tu allan i'r gymuned
Ffî hawl claddu (gan gynnwys gosod carreg)	£105.00	£310.00
Claddu	£75.00	£230.00
Ffi Hawl Claddu llwch	£65.00	£200.00
Ffî Claddu llwch	£75.00	£230.00
Ffî ymchwil i fedd	£15.00	£15.00

ii) Pryniant tir ar gyfer datblygu'r fynwent ymhellach. Mae angen cynllunio ymhell ymlaen llaw i brynu tir ac i wneud addasiadau i derfynau'r tir ac ati. Clerc i wneud ymholiadau pellach ynglŷn â chael asiant, oes hawl i gadw arian o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer pryniant, a'r broses yn gyffredinol.

iii) Giatiau'r fynwent – angen gofyn wrth Wyn baentio'r giatiau – awgrymwyd eu bod yn cael eu paentio'n ddu ac aur.

8. Tynnwyd ein sylw at y ffaith fod rhai ymgymerwyr ddim yn gwneud gwaith adeiladu oddi fewn i'r beddi. Penderfynwyd anfon llythyr at yr holl ymgymerwyr yn tynnu eu sylw at y rheol yma.

9. Materion Ariannol

Balans ar ddiwedd 26.04.06	Cyfrif llog uchel:	15,701.47
	Cyfrif siec:	259.68
	CYFANSWM:	15,961.15
(i) Cymeradwywyd y taliadau canlynol:	Cyflog/Costau clerc	379.72
	Offer Swyddfa Gwynedd	173.92
	Neuadd Rhostryfan	45.00
	John D.Roberts	63.00
	D.J.Williams, Brunswick	552.25
	Wyn Williams – cysgodfannau	99.00
	Aelodaeth/llyfr SLCC*	142.00
	Cyfrif Tir Glas:	
	Zurich (yswiriant ychwanegol	106.31
	ar gyfer y parc chwarae)	1.00
	Cyngor Gwynedd – rhent	
	YN WEDDILL	**14,398.95**

*Penderfynwyd ymuno gyda'r SLCC (Society for Local Council Clerks) gan fod y clerc yn teimlo y byddai'n cael budd mawr o'u cefnogaeth. Hefyd cytunwyd i brynu llyfr 'Local Council Administration'.

Derbyniwyd llythyr cydnabod gan yr holl fudiadau a dderbyniodd nawdd fis diwethaf.

10. Materion Cynllunio

i) Llythyr gan Hywel Thomas yn datgan y dylid anfon holl ohebiaeth ynglŷn â chynllunio i'r cyfeiriad e-bost: Cynllunio/planningArfon@gwynedd.gov.uk yn hytrach nag i swyddogion unigol. Penderfynwyd y dylid gofyn am gydnabyddiaeth o bob gohebiaeth.

ii) Clerc wedi cael cais i gefnogi bwriad D.W.Jones i gael canolfan brosesu cig yn y Gerlan. Angen cael llythyr ganddo er mwyn cael yr holl wybodaeth.

iii) Ceisiadau , dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
C06A/0214/24/LL: Bodfan, Rhosgadfan - Lolfa wydr
C06A/0232/24/LL: Tafarn Hen, Dinas - Trosi tŷ yn lle bwyta gyda stafelloedd gwely a brecwast.

11. Gohebiaeth

i Gofal a thrwsio – gwybodaeth – angen eu rhoi yn yr hysbysfyrddau.

ii Offer chwarae – i'w cadw ar ffeil

iii Canllawiau Tân ac Achub

iv Cais am nawdd gan Ambiwlans Awyr – ei ystyried ym mis Hydref.

v Ombudsman Cymru – adroddiad ar gyfer pob aelod.

vi Awdurdod Heddlu – cofnodion o gyfarfod diweddar. Nodwyd fod cyfeiriad at y ffaith eu bod wedi symud y camera CCTV o Rhosgadfan i'r Mosque ym Mangor oherwydd helyntion yno.

vii Derbyniwyd llythyr gan Arwel Williams, Penyffridd yn gofyn os oes posib symud y blwch postio yn ôl i'r safle gwreiddiol dros y ffordd i Llety, gan ei fod yn cael ei falurio'n rheolaidd yn ei safle presennol. Cytunwyd y dylid anfon llythyr i'r Post Brenhinol i gefnogi ei gais.

viii Adroddiad Awdurdod Iechyd ar ysbytai lleol – angen rhoi copi i Hugh Jones iddo gael golwg arno.

ix Ffederasiwn is-bostfeistri – cais ganddynt i ni geisio lobïo aelodau seneddol i atal y cynllun ar gyfer POCA. Anfon copi o lythyrau a anfonwyd at Hywel Williams ac Alun Ffred ac eu hymateb hwythau.

x Llythyr o gydnabydiaeth gan Cist Gwynedd yn nodi eu bod wedi derbyn ein cais am nawdd.

xi Cynylliad – gwybodaeth am bwyllgor rhanbarth.

12. Materion ar gyfer mis nesa

i Materion cyfathrebu y Cyngor Sir – gwallau iaith, dim ymateb, dim atebion i gwestiynau. Angen anfon llythyr at y Prif Weithredwr, Dilys Phillips ac Arweinydd y Cyngor.

ii Arwydd 40 mya yn Ffrwd Cae Du

iii Safle Wê – gofyn wrth gwmniau faint fyddai'r gost ac yn y blaen.

iv Lôn Wen – dim gwaith wedi'i wneud ar y safle.

v Arwyddion yn cael eu troi i wynebu'r ffordd anghywir yn Rhosgadfan.

vi Nodwyd fod sbwriel yn cael ei daflu tu ôl i ffens y cae chwarae ger Ysgol Rhostryfan.

13. Cyfarfod Nesaf

17eg Mai, 2006 – Cyfarfod Blynyddol - Neuadd Rhostryfan – i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15p.m.